# Cynnal cystodaeth asedau ar ran y buddsoddwr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal cystodaeth ar asedau ar ran y buddsoddwr. Mae'n cwmpasu diogelu'r stoc neu'r arian a gedwir ar ran buddsoddwyr gan y sefydliad. Mae hefyd yn ymwneud â chytuno ar drefniadau a'u dilyn ar gyfer trosglwyddo cyllid er mwyn sicrhau y telir am drafodion yn gywir ar yr adeg briodol. Ymhlith y trafodion mae angen eu monitro mae croniadau, pwrcasau a gwerthiannau. Mae'r safon hefyd yn gofyn bod yr unigolyn yn mynd ar ôl gwallau neu anghysondebau a nodir, ac yn trosglwyddo problemau i'r arbenigwyr priodol yn ddioed. Bydd angen i chi ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol, gan roi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Cytuno ar drefniadau ar gyfer trosglwyddo asedau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad, a'u cofnodi
2. Gwirio'r asedau a ddelir ar ran buddsoddwyr a threfnu eu bod yn cael eu hadneuo mewn cyfrifon awdurdodedig
3. Cadw cofnodion cyflawn ac wedi'u diweddaru o asedau'r buddsoddwr, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Darparu gwybodaeth i fuddsoddwyr ynghylch cofnodion asedau yn y fformat gofynnol ac ar yr adegau y cytunwyd arnynt
5. Monitro gweithgaredd y farchnad a chysoni trafodion ag asedau a gedwir mewn cystodaeth ar ran buddsoddwyr
6. Trefnu i drosglwyddo asedau oddi mewn i derfynau amser penodedig, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Nodi gwallau ac anghysondebau mewn cofnodion a thrafodion, ymchwilio iddynt a'u datrys, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Rhoi gwybod i fuddsoddwyr am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u cyfrifon, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Nodi ac ymateb i achosion gwirioneddol neu bosibl o beidio â chydymffurfio â rheoliadau ac adrodd amdanynt i'r awdurdod perthnasol lle bo hynny'n briodol
10. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y fframwaith rheoliadol ar gyfer cystodaeth ar asedau buddsoddwyr a goblygiadau'r fframwaith rheoliadol ar gyfer eich rôl gwaith chithau
2. Strwythur y farchnad fuddsoddi, gan gynnwys rôl eich sefydliad eich hun, a phartïon a sefydliadau allanol o ran cystodaeth asedau
3. Mecaneg cystodaeth, gan gynnwys systemau ffisegol ac electronig
4. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cynnal cystodaeth asedau a chanfod a datrys gwallau neu anghysondebau
5. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer trosglwyddo cyllid a gwneud taliadau, gan gynnwys gweithdrefnau awdurdodi a dulliau o ddilysu cyfarwyddiadau
6. Lefel eich awdurdod a'ch cyfrifoldeb personol mewn perthynas â delio gyda buddsoddwyr, cysylltiadau allweddol a chydweithwyr
7. Pwy yw'r cysylltiadau allweddol yn y sefydliadau partner
8. Sut mae sefydlu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda chleientiaid, gan gynnwys defnyddio sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu a chysyniadau darparu gwasanaeth o ansawdd
9. Sut mae gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol, yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn gweithredu oddi mewn i derfynau eich cyfrifoldeb
2. Rydych yn esbonio pethau fel bod eraill yn deall
3. Rydych yn darparu gwybodaeth i'r rhai sydd ei hangen ac sydd â hawl i'w derbyn yn unig

Cynnal cystodaeth asedau ar ran y buddsoddwr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPIO04 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Buddsoddi |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithrediadau Buddsoddi; gweinyddiaeth buddsoddiadau; y farchnad fuddsoddi; data buddsoddiadau; data'r farchnad; buddsoddiadau; perfformiad buddsoddiadau; perfformiad y farchnad; asedau; cwmni buddsoddi; rheoli cronfeydd; gwasanaethau ariannol; daliadau ariannol; cydymffurfio; buddsoddwyr |